

Hydref 2025

Gwaith Plwm Nant y Mwyn

Diweddariad Cymunedol



Rydym yn falch o rannu'r newyddion cymunedol diweddaraf gan Raglen Mwyngloddiau Metel Cymru, sy'n tynnu sylw at y cynnydd diweddar yng ngwaith plwm hanesyddol Nant y Mwyn ger Rhandirmwyn.

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi bod yn brysur y tu ôl i'r llenni yn archwilio opsiynau adfer, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymyriadau dŵr wyneb.

Er mwyn deall yr amgylchedd lleol yn well, rydym wedi cynnal amrywiaeth o arolygon ecolegol, gan gynnwys asesiadau ar gyfer dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr a beleod, yn ogystal ag arolygon drôn technegol i gefnogi ein gwaith.

Pam y mae'r gwaith hwn yn bwysig

Mae cyrsiau dŵr Nant y Mwyn a Nant y Bai yn llifo i afon Tywi – afon yr effeithir arni gan lygredd metel gwaith mwyngloddio plwm y gorffennol. Ein nod hirdymor yw lleihau llwythiadau metel sy'n mynd i mewn i'r llednentydd hyn ac, yn y pen draw i afon Tywi, sydd ar hyn o bryd yn methu â chyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol ar gyfer sinc.

Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod

Ers y cylchlythyr diwethaf ym mis Tachwedd 2023, mae Astudiaeth Ddichonoldeb wedi bod ar y gweill i asesu hyfywedd technegol, amgylcheddol ac economaidd amrywiol opsiynau ymyrraeth. Un canfyddiad allweddol yw bod Nant y Bai wrthi'n erydu tomenni rwbel ar hyd ei glannau, sy'n debygol o gyfrannu at lefelau uwch o fetel a gwaddodion halogedig mewn cyrsiau dŵr i lawr yr afon.

Yr hyn yr ydym yn ei gynllunio

Er mwyn mynd i'r afael ag erydiad tomenni rwbel a lleihau halogiad, rydym yn cynllunio'r targedau ymyrryd canlynol:

Amddiffyniad rhag erydiad

Ein nod yw amddiffyn tua 100 metr o lan Nant y Bai trwy osod amddiffyniad rhag erydiad, a allai gynnwys:

- Caergewyll
- Bagiau wedi'u llenwi â cherrig neu raean
- Matiau geotecstil
- Stanciau pren
- Trawsleoli glaswelltir i sefydlogi ardaloedd yr aflonyddwyd arnynt

Rheoli'r cwrs dŵr

Rydym yn bwriadu dargyfeirio dŵr o'r tomenni rwbel, gan helpu i atal rhagor o lygredd rhag mynd i mewn i'r nant.

Rheoli Gwaddodion

Byddwn yn defnyddio trapiau gwaddod i ddal deunydd gwastraff symudol cyn iddo gyrraedd y cwrs dŵr.



Cofrestrwch am ddiweddariadau:

 <https://bit.ly/GwaithPlwmNantyMwyn>
 nantymwyn@metalmineswales.co.uk



Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau cynlluniau'r cam hwn o'r prosiect gyda chydweithrediad perchnogion tir.

Bydd gwaith pellach yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, ond rydym yn rhagweld y bydd yr ymyriadau cychwynnol hyn yn cael effaith sylweddol yn Nant y Mwyn. Byddant hefyd yn darparu gwaith sylfaen gwerthfawr ar gyfer camau pellach y prosiect, gan ein helpu i dargedu atebion hirdymor yn well i leihau llygredd o'r pwll.

Mae rhannau o safle'r mwynglawdd wedi'u dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Byddwn yn sicrhau bod ein dull o weithio yn parchu'r ecoleg warchoddedig a byddwn yn ceisio'r caniatâd angenrheidiol, gan gynnwys y cydsyniad SoDdGA sydd ei angen, i ganiatáu i'r prosiect fynd rhagddo.

Cydweithio

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gymuned yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Wrth i'r prosiect symud ymlaen, byddwn yn rhannu mwy o ddiweddariadau, gan gynnwys amserlenni a ffyrdd y gallwch gymryd rhan neu rannu eich barn.

Os hoffech ddysgu mwy, derbyn diweddariadau drwy e-bost, neu rannu eich syniadau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Ymholiadau Cyffredinol CNC:
0300 065 3000

Rheolwr Ymgysylltu:
Adam Bateman - Llinell Uniongyrchol **01623 637015**

Rheolwr y Prosiect:
Marika Gates - Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

Cynghorydd Arbenigol Arweiniol:
Tom Williams - Cyfoeth Naturiol Cymru



Mae hen fwyngloddiau yn llefydd peryglus â llawer o beryglon cudd. Mae llawer o'n prosiectau wedi eu lleoli ar dir preifat lle nad oes mynediad cyhoeddus heb ganiatâd perchennog y tir.